

SESIWN 6: CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Ystod oedran: 7-11 oed

Amlinelliad Bydd dysgwyr yn ystyried ac yn trafod gwahanol gamau gweithredu a allai gael eu cymryd er mwyn sicrhau system bwyd cynaliadwy a tecach. Bydd y dysgwyr yna'n pennu camau gweithredu posibl y gallent eu cymryd fel ysgol ac yn trefnu'r rhain yn ôl eu heffaith a pha mor syml ydynt. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau er mwyn cynllunio eu camau gweithredu ar gyfer cyflawni cyfiawnder bwyd.	
Amcanion dysgu <ul style="list-style-type: none">• Pennu gwahanol gamau gweithredu posibl a allai gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y system bwyd byd eang yn fwy teg.• Deall y bydd gwahanol gamau gweithredu yn amrywio yn ôl pa mor syml fydd eu cyflawni a'r effaith y byddant yn ei chael.• Cymryd rhan mewn sgysiau cydweithredol ynghylch cymryd camau gweithredu ynghylch mater.	Deilliannau dysgu <ul style="list-style-type: none">• Bydd y dysgwyr yn rhestru rhai camau gweithredu posibl a allai gael eu cymryd yn erbyn system bwyd byd-eang sy'n annheg.• Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn trafno gwahanol gamau gweithredu yn ôl pa mor syml fyddai eu cymryd a'u heffaith.• Bydd y dysgwyr yn trafod y gwahanol gamau gweithredu'r gollen nhw eu cymryd eu hunain.
Cwestiynau allweddol <ul style="list-style-type: none">• Pa gamau allai gael eu cymryd yn erbyn system bwyd byd-eang sy'n annheg?• Pa gamau gweithredu y gallem eu cymryd?• Pa mor hawdd fydd hi i gymryd y camau gweithredu hyn?• Pa effaith y bydd y camau gweithredu hyn yn ei chael?	Adnoddau <ul style="list-style-type: none">• Sioe Sleidiau B (Sesiynau 4–6): Sleidiau 9-15• Taflenni gweithgaredd:<ol style="list-style-type: none">1. <i>Cymryd camau gweithredu</i>2. <i>Llinell effaith</i>3. <i>Syniadau ar gyfer camau gweithredu</i>

Gweithgaredd 6.1 (40 mun)

Cymryd camau tuag at system fwyd sy'n fwy teg

Sylwer bod y gweithgaredd hwn yn heriol ac yn fwy addas i blant 9-11 oed.

- Nod y gweithgaredd hwn yw rhoi cyfle i ddysgwyr nodi rhai ffyrdd y gellid gwneud y system bwyd byd-eang yn decach, i fod yn ymwybodol o rai o'r grwpiau o bobl sy'n gallu dylanwadu ar y system hon, ac ystyried effeithiolrwydd gwahanol fathau o gamau gweithredu.
- Dangoswch y clip ffilm: Cipolwg ar y system fwyd doredig yn India (2 funud 39 eiliad).
www.youtube.com/watch?v=1_8oEWx1qzs
- Dangoswch sleid 10 a gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o weithgareddau blaenorol i awgrymu beth yn eu barn nhw yw'r heriau y mae ffermwyr ledled y byd yn eu hwynebu. Gallai dysgwyr hefyd fanteisio ar unrhyw wybodaeth sydd ganddynt eisoes am yr heriau y mae ffermwyr yn y DU yn eu hwynebu.
- Gwahoddwch y dysgwyr i rannu eu syniadau gyda gweddill y dosbarth. Ymhlith yr heriau posibl mae: sychder, y newid yn yr hinsawdd, hawliau tir, prisiau bwyd, diffyg cyfarpar, cadwyni cyflenwi annheg a mynediad gwael i farchnadoedd.
- Dangoswch sleid 11 ac eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i edrych ar rai enghreifftiau o'r hyn y gall gwahanol grwpiau o bobl yn y gadwyn gyflenwi ei wneud i helpu i newid y system bwyd byd-eang i'w gwneud yn decach. Mae pum enghraifft i'w hystyried. Unwaith y bydd y dysgwyr wedi edrych ar yr enghreifftiau, mae angen iddynt benderfynu pa rai o'r camau gweithredu y credant fydd yn cael yr effaith fwyaf a pha rai fydd yn cael yr effaith leiaf. Mae amryw o opsiynau ar gyfer trefnu'r gweithgaredd hwn. Mae awgrymiadau posibl yn cynnwys:
 1. *Trefnu'r dysgwyr yn grwpiau mwy a rhoi pob un o'r pum enghraifft weithredu a ddarperir yn Cymryd camau gweithredu (Taflen Gweithgaredd 1) i bob grŵp at ddiben cymharu a thrafod.*
 2. *Trefnu'r dysgwyr yn grwpiau llai a rhoi un o'r enghreifftiau yn unig i bob grŵp yn Cymryd camau gweithredu (Taflen Gweithgaredd 1) i'w hystyried. Yna dylid cymharu'r gwahanol enghreifftiau mewn trafodaeth dosbarth cyfan.*
- Rhowch amser i'r dysgwyr ddarllen eu henghraifft/henghreiffiau a phenderfynu a ydynt yn credu bod effaith pob enghraifft wedi bod yn fawr neu'n fach.
 - *Mawr: Mae'r weithred yn cael effaith uniongyrchol a mawr ar wneud y system fwyd yn decach*
 - *Bach: Mae'r weithred yn cael effaith uniongyrchol a bach ar wneud y system fwyd yn decach*
- Nawr rhowch gopi A3 o'r *Llinell effaith* (Taflen Gweithgaredd 2) i bob grŵp a ddangosir hefyd ar sleid 12. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi eu henghraifft (neu enghreifftiau) ar y llinell hon i ddangos ei heffaith. Gosodir camau gweithredu sy'n cael mwy o effaith tuag at un pen i'r llinell a gosodir camau gweithredu sy'n cael llai o effaith tuag at ben arall y llinell.
- Defnyddiwch sleid 13 i annog dysgwyr i ystyried a fydd y cam gweithredu:
 - *Yn helpu pobl yn uniongyrchol*
 - *Yn helpu pobl yn anuniongyrchol (pobl sy'n byw ymhellach i ffwrdd o'r cam gweithredu fel arfer)*
 - *Yn helpu pobl nawr*
 - *Yn helpu pobl yn y dyfodol*
 - *Yn helpu rhai pobl*
 - *Yn helpu llawer o bobl*



- *Eglurwch nad oes yna atebion cywir nac anghywir; mater i bob grŵp yw penderfynu.*
- *Yna naill ai fel dosbarth (os oedd pob grŵp yn edrych ar un cam gweithredu) neu o fewn eu grŵp (os oedd ganddynt yr holl enghreifftiau) trafodwch beth oedd barn dysgwyr am yr enghreifftiau. Defnyddiwch sleid 12 i ddangos lle rhoddodd gwahanol grwpiau eu henghreifftiau ar y llinell effaith, gyda grwpiau'n mynegi eu barn.*
- *Os ydych yn gwneud hyn fel dosbarth, gallech greu llinell effaith ddychmygol fawr ar draws yr ystafell ddosbarth, a gofyn i bob grŵp sefyll a gosod y camau gweithredu ar hyd y llinell hon, gan gyfiawnhau eu dewis i'r dosbarth.*
- *Gofynnwch i'r dosbarth neu'r grwpiau benderfynu pa rai yw'r ddau brif gam gweithredu yn eu barn nhw a dweud pam. A yw'n well cael effaith fawr ar raddfa leol a bach (fel cam gweithredu gan grŵp cymunedol), neu beth sy'n ymddangos fel effaith lai ar raddfa fyd-eang (fel llywodraeth neu archfarchnad yn newid ei rheolau)? Helpwch y dysgwyr i ystyried a ydynt yn credu y gall llywodraeth, pobl eraill, busnesau neu elusennau (Sefydliadau Anllywodraethol) gael yr effaith fwyaf. Mae'n werth nodi bod y grwpiau hyn yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar gyd-destun eu gwlad, cyfoeth, masnach a phoblogaeth.*

Gweithgaredd 6.2 (30 munud+)


Cymryd camau gweithredu: Beth y gallaf ei wneud?

- *Mae'r gweithgaredd hwn yn galluogi dysgwyr i feddwl am ba fathau o gamau gweithredu y gallent eu cymryd i helpu i wneud y system fwyd yn decach yn eu cymuned leol. Gellid gwneud y gweithgaredd hwn mewn grwpiau bach o dri neu bedwar, neu fel gweithgaredd dosbarth cyfan.*
- *Eglurwch i'r dysgwyr fod cymryd camau gweithredu'n cynnwys ystod eang o weithgareddau ac ar adegau mae camau gweithredu'n cynnwys dysgu mwy am fater.*
- *Dangoswch sleid 14 a gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am gamau gweithredu posibl y gallent eu cymryd. Gallent gofnodi'r rhain ar nodiadau gludiog neu ddarnau o bapur. Os yw dysgwyr yn ei chael hi'n anodd meddwl am gamau gweithredu posibl, mae sleid 15 yn cynnwys rhai syniadau y gallent ddewis ohonynt. Fel arall, defnyddiwch *Syniadau ar gyfer camau gweithredu* (Taflen Gweithgaredd 3). Anogwch y dysgwyr i fod mor greadigol â phosibl yng nghyd-destun yr ysgol.*
- *Pan fydd gan y dysgwyr set o naw syniad i'w defnyddio gofynnwch iddynt eu rhestru yn ôl pa gamau gweithredu a fyddai'n fwyaf effeithiol neu pa gamau gweithredu y byddent yn dewis eu cymryd, a hynny ar ffurf diemwnt naw (gweler isod). Pwysleisiwch nad oes ateb cywir neu anghywir – bydd manteision ac anfanteision i bob opsiwn a dylai dysgwyr eu rhestru fel y credant orau yn eu grŵp.*

I gael rhagor o fanylion am ddefnyddio "trefnu ar ffurf diemwnt" yn yr ystafell ddosbarth, gweler t. 19 Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth – Canllaw ar gyfer athrawon:

www.oxfam.org.uk/cy-GB/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers





- Pan fydd y grwpiau wedi cytuno ar eu diemwnt gofynnwch am adborth gan y dosbarth. Trafodwch eu dewisiadau a gofynnwch am resymau. Cofiwch gynnwys trafodaeth ynghylch y meini prawf a ddefnyddiwyd ganddynt, er enghraifft, pa mor ymarferol ydyw, pa mor effeithiol ydyw, pa mor briodol ydyw neu'r gost.
- Gallai'r dysgwyr yna gymryd y cam gweithredu a fyddai'n fwyaf effeithiol yn eu barn nhw. *Nodwch ei bod hi'n bwysig caniatáu i'r dysgwyr ddewis drostynt eu hunain a ydynt yn dymuno cyfrannu at gymryd cam gweithredu neu beidio. Dylech fod yn ymwybodol iawn o hyn wrth addysgu dysgwyr iau.* Os byddant yn cymryd camau gweithredu, efallai yr hoffech rannu'r manylion gan ddefnyddio sianeli Oxfam ar y cyfryngau cymdeithasol (ar ôl sicrhau bod gennych y caniatâd cywir yn unol â rheoliadau eich ysgol).
 - www.facebook.com/oxfameducation
 - www.twitter.com/OxfamEducation

Syniadau pellach

- Dewch i wybod mwy am Ymgyrch 'Behind the Barcodes' Oxfam sy'n galw ar archfarchnadoedd i gymryd camau gweithredu er mwyn gwella amodau gwaith a bywydau ffermwyr a chynhyrchwyr ar raddfa fach: oxfamapps.org/behindthebarcodes/?intcmp=HPWWLWP_grid_BehindBC
- Grwpiau Ysgolion Oxfam —mae Grwpiau Ysgolion Oxfam yn rhoi cyfle i bobl ifanc 11-18 mlwydd oed ddysgu a meddwl am faterion byd-eang cyn cymryd camau gweithredu yn eu cymunedau lleol a gwneud gwahaniaeth yn y byd ehangach. Trwy fod yn rhan o Grwpiau Ysgolion Oxfam, gall pobl ifanc gymryd rhan yn ymgyrchoedd diweddaraf Oxfam, datblygu sgiliau arwain, a siarad am dlodi byd-eang: www.oxfam.org.uk/education/get-involved/start-an-oxfam-school-group

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.



Cymryd camau

Taflen gweithgaredd 1

Archfarchnadoedd y DU

Mae archfarchnadoedd yn prynu'r bwyd y maent wedyn yn ei werthu gan lawer o wahanol ffermwyr ledled y byd. Yn aml, maent yn prynu bwyd gan gwmnïau mewnforio am brisiau isel sy'n golygu bod y ffermwyr ar raddfa fach sy'n tyfu'r cnydau yn cael cyflog annheg.

Mae rhai archfarchnadoedd bellach yn gweithio gyda chwmnïau cydweithredol i sicrhau bod y ffermwyr yn cael pris teg am eu bwyd a bod gweithwyr ar y ffermydd yn cael eu trin yn decach.

Mae hyn yn golygu bod yr archfarchnadoedd (a defnyddwyr) yn cael bwyd o ansawdd gwell a bod ffermwyr yn cael mwy o arian.

Llywodraethau Cenedlaethol

Gall llywodraethau helpu ffermwyr ar raddfa fach drwy ddarparu benthyciadau a hyfforddiant i dyfu mwy o gnydau a chnydau gwell.

Gall llywodraethau hefyd helpu teuluoedd tlotach i allu fforddio prynu digon o fwyd drwy roi arian iddynt.

Gallant hefyd wneud pryddau ysgol yn rhad ac am ddim i ddisgyblion.

Mae hyn yn golygu bod mwy o fwyd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y wlad a bod mwy o bobl yn gallu fforddio prynu bwyd, felly mae llai o bobl yn llwglyd.

Grwpiau cymunedol

Mewn rhai mannau, ychydig o reolaeth sydd gan ffermwyr ar raddfa fach dros y tir y maent yn ei ffermio neu maent yn ffermio ardal sydd mor fach fel nad ydynt yn gallu cynhyrchu llawer iawn o fwyd.

Gall pobl ddod ynghyd mewn menter gydweithredol i gael mwy o reolaeth dros eu tir. Gallant hefyd ymgyrchu dros newid lleol fel bod eu hawl i ffermio'r tir yn fwy diogel.

Pobl yn cymryd camau gweithredu

Ledled y byd, mae grwpiau o bobl yn gweld bod y system bwyd byd-eang sydd gennym yn annheg a'i bod yn effeithio ar bobl mewn gwledydd tlotach a chyfoethog. Gall pobl gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r broblem lle maent yn byw.

Mae rhai pobl yn ymgyrchu gyda sefydliadau fel Oxfam i godi ymwybyddiaeth o'r system annheg i ddefnyddwyr ac i roi pwysau ar lywodraethau i newid y system. Mae sawl ffordd o wneud hyn megis ysgrifennu at y llywodraeth, trefnu protest neu ddeiseb neu ymgyrch ar-lein.

Cyrff Anllywodraethol

Mae sefydliadau fel Oxfam yn credu bod y system bwyd byd-eang yn annheg ac maent yn gweithio i newid y system hon a gwneud pethau'n decach.

Maent yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gefnogi ffermwyr ar raddfa fach drwy ddarparu hyfforddiant ac arian i helpu i wella dulliau ffermio.

Maent yn gweithio gyda chwmnïau ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi i godi ymwybyddiaeth a darparu cyfleoedd i wneud y system yn decach.

Mae Oxfam hefyd yn ymgyrchu, gan gydweithio â llywodraethau, archfarchnadoedd a defnyddwyr i geisio gwella'r system.

Llinell effaith

Taflen gweithgaredd 2



Syniadau ar gyfer camau gweithredu

Taflen gweithgaredd 3

Dyma syniadau ar gyfer cymryd camau gweithredu. Allech chi feddwl am eich syniadau eich hun hefyd? Ysgrifennwch y rhain yn y blychau gwag isod:

<p>Dyluniwch boster i hysbysu pobl am yr heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach ar draws y byd yn eu hwynebu.</p>	<p>Yn eich ystafell ddosbarth, arddangoswch gadwyn bapur i ddangos sut y mae cadwyn gyflenwi yn gweithio.</p>	<p>Yn yr archfarchnad allwch chi weld o leiaf un cynnyrch o bob cyfandir? Allwch chi weld unrhyw gynnyrch Masnach Deg?</p>
<p>Dysgwch fwy am fwyd yn eich ysgol. O ble y mae'n dod? A yw'n gynnyrch Masnach Deg?</p>	<p>Rhowch gyflwyniad yn y gwasanaeth i rannu'r hyn rydych wedi'i ddysgu am broblemau bwyd byd-eang.</p>	<p>Sefydlwch ardd gymunedol yn eich ysgol. Allwch chi leihau eich milltiroedd bwyd? Allwch chi gynhyrchu bwyd yn lleol?</p>
<p>Anogwch lai o wastraff a llai o ddeunydd pecynnu o fwyd yn eich ysgol. Bydd hyn yn helpu i leihau eich ôl troed carbon.</p>	<p>Ysgrifennwch i'ch archfarchnad leol i rannu eich pryderon am yr heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach a gweithwyr ar ddechrau cadwyni cyflenwi byd-eang yn eu hwynebu.</p>	<p>Dysgwch fwy am ffermio yn y DU. Pa gnydau sy'n cael eu cynhyrchu? Pa heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu? Allwch chi ofyn i ffermwr lleol ddod i siarad â'ch dosbarth?</p>
<p>Ewch ati i greu arddangosfa yn eich ystafell ddosbarth yn trafod problem fwyd o'ch dewis.</p>		